Annwyl……

Bob blwyddyn gofynnwn i bawb sydd wedi cwblhau cwrs yma yn ddiweddar gymryd rhan mewn arolwg i ddarganfod beth sy'n digwydd iddynt ar ol iddynt adael y *brifysgol/coleg*.

Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw waith a/neu astudiaeth bellach y byddwch yn ei wneud ar 10 Ionawr 2018.

Cliciwch ar y cyswllt hwn…… i gwblhau holiadur nawr. Ni ddylai gymryd ond ychydig funudau i'w gwblhau - i'r mwyafrif o'r cwestiynau, dim ond rhoi tic mewn blwch sydd ei angen i ateb. Unwaith rydych wedi ei gwblhau, gwnewch yn si?r eich bod wedi cyflwyno eich holiadur wedi'i gwblhau drwy ddilyn y cyfarwyddiadau. Gallwch gwblhau'r holiadur ar-lein unrhyw bryd rhwng nawr a 5 Mawrth, ond cofiwch mai 10 Ionawr yw'r dyddiad sydd o ddiddordeb i ni er mwyn i ni allu cymharu gwybodaeth pawb.

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r holiadur, neu os hoffech gael y ffurflen mewn fformat arall, wnewch chi gysylltu â ni yn…… os gwelwch yn dda.

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am sut mae'r arolwg yn gweithio a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a ddarparwch *isod/yn y ffeil sydd ynghlwm, drwy glicio ar y cyswllt hwn……*

Er eich bod yn awr wedi cwblhau eich cwrs, mae'r *gwasanaethau gyrfaoedd* yn dal ar gael i'ch helpu gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gyrfa. Os dymunwch gael unrhyw help gyda'ch cynlluniau gyrfa, cysylltwch â ni yn……

Yn gywir……

**Ynghylch yr arolwg**

Mae'r arolwg rydym yn gofyn i chi gymryd rhan ynddo yn arolwg cenedlaethol o bawb sydd wedi cymhwyso yn ddiweddar mewn unrhyw brifysgol neu goleg Addysg Uwch (AU) yn y DU. Bydd yr wybodaeth a rowch hefyd yn ddefnyddiol iawn i ni yn y brifysgol/coleg i gynghori ein myfyrwyr presennol am y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt. O blith y rheiny a enillodd gymwysterau ar draws y DU yn 2015/16, ymatebodd 78% i'r arolwg. Gellir gweld rhagor o ganlyniadau yn https://www.hesa.ac.uk/news/29-06-2017/sfr245-destinations-of-leavers.

Os na fyddwn yn clywed gennych byddwn yn ceisio cysylltu a chi eto, o bosib dros y ffon, felly rhowch wybod i ni os byddwch yn newid eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn, os gwelwch yn dda. Os na allwn gysylltu a chi o gwbl, efallai y byddwn yn ceisio cael gwybodaeth am yr hyn roeddech yn ei wneud gan rywun arall, naill ai yn y brifysgol/coleg neu rywun y gallwn gysylltu ag ef/hi drwy ddefnyddio'r wybodaeth gysylltu rydych chi wedi'i rhoi i ni yn flaenorol. Os nad ydych eisiau i ni wneud hyn, neu os nad ydych eisiau rhoi unrhyw wybodaeth i ni, wnewch chi ddweud wrthym os gwelwch yn dda. Isod mae'r manylion am yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth ar ol ei hanfon atom.

**Beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth**

Byddwch cystal â rhoi hysbysiad casglu eich sefydliad eich hun yma, ac yna dilynwch hwn gyda
chyswllt i hysbysiad casglu'r AYAU fel y nodir isod

Byddwn ni'n anfon gwybodaeth o'r arolwg hwn i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU).

Disgrifir y defnydd y bydd yr AYAU yn ei wneud o'ch ymatebion i'r arolwg yn fanwl yn y fan hyn https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices/dlhe-c16018.